

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL 3 Hydref 2018

Yn Bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.00am)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James, ac roedd y Cynghorydd P Kidney wedi rhoi gwybod bod apwyntiad ganddo ac y byddai'n cyrraedd yn hwyr.

2. Datgan Buddiannau

Dywedodd y Cynghorydd M Evans bod ganddo fuddiant yn y rhan o'r Adroddiad Monitro Blyneddol ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn â'r economi ymwelwyr a'r llefydd mewn gwestai. Dywedodd y byddai'n gadael y cyfarfod petai unrhyw drafodaeth ar yr elfen hon o'r adroddiad.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18^{fed} o Orffennaf 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 18^{fed} o Orffennaf 2018.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

(a) Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Parciau Cenedlaethol (Cofnod 10)

Gofynnodd un Aelod a oedd diweddariad ynghylch dyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Atebodd y Prif Weithredwr drwy ddweud bod gan yr Awdurdod ryw faint o arian wrth gefn ac nad oedd pwysau i wario arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cadarnhaodd bod y swyddogion, i bob pwrpas, yn gweithio i'r gyllideb y cytunwyd arni, ac y cynhelir trafodaethau pellach ar y gyllideb gyda'r Aelodau yn ystod y misoedd sydd i ddod.

NODWYD.

5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu Cynhadledd Europarc yn y Cairngorms rhwng 18 a 21 Medi ynghyd â Mr AE Sangster, Tom Moses



(Cydllynydd y Prosiect Llwybrau) a thri Parcmon Ieuenctid. Roedd wedi bod yn ddiddorol cwrdd â chynrychiolwyr o bob rhan o Ewrop yn ogystal ag America, ac roedd hi am longyfarch y Parcmyn Ieuenctid ar eu cyfraniad rhagorol. Thema'r gynhadledd oedd ymgysylltu â'r ieuenctid mewn cadwraeth a'r amgylchedd, ac roedd Manifesto Ieuenctid wedi'i lunio, a'r gobaith oedd cyflwyno'r Manifesto hwn gerbron y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod. Hefyd dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi ymweld â'r bont a adferwyd yn ddiweddar yng Nghoedwig Canaston gan nodi bod y gwaith wedi'i gwblhau gan y Garreg Las fel rhan o'u Cytundeb A106. Roedd y bont yn bwysig fel llwybr ceffylau ac fel rhan arwyddocaol o adeiladwaith Ystâd Slebech.

NODWYD.

- 6. Adroddiadau cyfarfodydd gwahanol Bwyllgorau'r Awdurdod**
Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried neu er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2018;
- (ii) Gweithgor Strategaeth Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 5 Medi 2018.

NODWYD.

[Gan fod y Cynghorydd M Evans wedi datgan buddiant ar Lety Ymwelwyr, gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem honno.]

- 7. Adroddiad Monitro Blynnyddol 2018 ar Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Roedd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc wedi atgoffa'r Aelodau bod yr Adroddiad Blynnyddol yn asesu i ba raddau yr oedd strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn cael eu cyflawni, a rhaid oedd cyflwyno'r adroddiad hwn i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Roedd adroddiad 2018 wedi'i ddosbarthu, a gofynnwyd i'r Aelodau ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Roedd y Canfyddiadau Allweddol wedi'u nodi ar ddechrau'r ddogfen. Fodd bynnag roedd y materion hyn eisoes wedi'u trafod gyda'r Aelodau fel rhan o'r broses o adolygu'r CDLI oedd yn digwydd ar hyn o bryd.

Cododd yr Aelodau nifer o gwestiynau gan gynnwys gofyn am eglurhad ynglŷn ag achos y dangosydd coch ar gyfer llety ymwelwyr a hefyd gofyn am gynnwys targed i nodi a oedd effaith ceisiadau cynllunio ar yr Iaith Gymraeg yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral. O ran llety i ymwelwyr, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y dangosydd coch yn ymwneud â safleoedd gwersylla a charafanau, a chytunwyd y gellid cynnwys croesgyfeiriad at yr adran berthnasol. O ran yr effaith ar yr Iaith



Gymraeg dywedwyd y gellid ychwanegu dangosydd mewn adroddiadau yn y dyfodol. Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am adroddiad clir o safon uchel.

PENDERFYNWYD bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2018 yn amodol ar gynnwys croesgyfeiriadau yn yr adran canfyddiadau allweddol o'r adroddiad.

8. Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Cynllunio APCAP 2017-18

Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Cynllunio 2017-18 wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau, a gofynnwyd am gymeradwyo'r adroddiad i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref. Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdodau Cynllunio baratoi adroddiad blynyddol yn clustnodi sut oeddent wedi perfformio yn erbyn dangosyddion penodol, gan nodi'r hyn a wnaed yn dda fel y gellid rhannu hyn gydag eraill, a pha gamau y gellid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd perfformiad oedd angen eu gwella. Hefyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad oedd canlyniadau'r Arolwg o Fodlonrwydd Cwsmeriaid a gynhaliwyd yn 2017-18. Hefyd roedd y canlyniadau hyn mewn fformat safonol y cytunwyd arno gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a'r nod oedd asesu barn pobl oedd wedi derbyn penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y flwyddyn. Yn y dyfodol, y gobaith oedd y byddai gwaith yr arolwg yn cael ei ehangu i gynnwys rhanddeiliaid eraill yn y broses cynllunio.

Nodwyd bod adran 9 yn rhoi trosolwg naratif o berfformiad yr Awdurdod o ran cynllunio, gyda'r targedau Rheoli Datblygu wedi'u nodi ym mharagraff 9.11. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Cyfarwyddyd a Chynllunio y Parc at yr oedi parhaus i'r prosiect rheoli dogfennau, ac ymddiheurodd am hyn, gan egluro mai'r hyn oedd i gyfrif am yr oedi oedd rhesymau technegol o ran y mudo amgylchedd gwesteia a mudo gweinydd y cyflenwr. Gobaith y swyddogion oedd y byddai'r system yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn. Gofynnodd yr Aelodau pam na fu'n bosibl bwydo i mewn i system rheoli dogfennau Cyngor Sir Penfro, a dywedwyd wrthynt y byddai hynny yn peri problemau o ran diogelwch a chapasiti annigonol.

Aeth y swyddog rhagddo i egluro bod y ffigurau ymchwilio i achosion gorfodi cyn pen 84 diwrnod wedi gostwng rhywfaint oherwydd bod llai o staff yn ymdrin â'r achosion hyn a bod yr ôl-groniad o achosion yn derbyn sylw. Roedd Swyddog Gorfodi newydd wedi'i gyflogi ers hynny ac roedd y gwaith o glirio'r ôl-groniad yn mynd rhagddo'n dda, fel y dywedwyd yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

Gofynnodd un Aelod am i'r twf yn yr iaith Gymraeg yn Sir Benfro gael ei amlygu yn adran 7 ar y newid yn y boblogaeth, a chytunodd y Cyfarwyddwr i gynnwys gwybodaeth am hyn. Hefyd rhoddodd



ddiweddariad i'r ffigurau ynghylch ceisiadau adeiladau rhestredig ym mharagraff 13.3 lle'r oedd y ffigwr am y ceisiadau am ganiatâd Adeilad Rhestredig a benderfynwyd o fewn yr amserlen ofynnol yn uwch na 90%. Gofynnodd am i hyn gael ei ddiweddarau cyn cyflwyno'r adroddiad. Cyfeiriodd Aelod arall at y dyblygu geiriad yn y trydydd o'r nodau llesiant (para 9.8) a gofynnodd am i hyn gael ei ddileu.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynnyddol (APB) Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar Ddatblygu Lleol 2017/18 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2018 yn amodol ar gynnwys y newidiadau y cytunwyd arnynt.

[Nid oedd y Cynghorydd M Evans yn bresennol yn ystod y drafodaeth ar yr adroddiad canlynol.]

9. Cynllun Hyfforddiant Datblygu Aelodau

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod wedi cael gwahoddiad yn ddiweddar, fel rhan o gamau'r Awdurdod i weithredu Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau, i lenwi ffurflen hunanasesu, oedd yn gyfle iddynt glustnodi unrhyw ofynion datblygu/cefnogi oedd eu hangen arnynt i'w helpu i gyflawni eu rôl. Dychwelwyd wyth ffurflen. Fodd bynnag, er gwaetha'r nifer siomedig o isel, roedd dadansoddiad o'r anghenion hyfforddiant wedi'i wneud a Chynllun wedi'i ddatblygu. Roedd y manylion hyn ynghlwm wrth yr adroddiad, oedd wedi cael eu hystyried yn flaenorol gan Weithgor Strategaeth Datblygu Aelodau yr Awdurdod.

Gwahoddwyd yr Aelodau i wneud unrhyw sylwadau pellach ar y Cynllun a chymeradwyo bod y Cynllun yn cael ei weithredu.

Aeth y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd rhagddi i ddweud y byddai'r Awdurdod yn colli tri Aelod gwerthfawr o'r Awdurdod yn y flwyddyn oedd i ddod ac y byddai Llywodraeth Cymru yn dechrau ar y broses recriwtio cyn hir. Awgrymwyd felly y dylid gwneud dadansoddiad o'r sgiliau i glustnodi unrhyw fylchau a allai fod o gymorth gyda'r broses recriwtio. Byddai ffurflen felly yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau i'w llenwi a'i dychwelyd. Fodd bynnag nodwyd mai prin oedd yr amser ar gyfer eu dychwelyd.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Hyfforddiant Datblygu Aelodau.

10. Amrywio'r Safonau Ariannol ar gyfer Caffael Argraffydd i'r adran Rheoli Datblygu

Atgoffwyd yr Aelodau bod Gweithdrefn Ariannol yr Awdurdod FP8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gael tri dyfynbris ar gyfer caffael nwyddau/gwasanaethau sy'n costi rhwng £10,000 a £25,000. Dywedwyd bod y Tîm Rheoli Datblygu wedi cael nifer cynyddol o broblemau gyda'r



argraffydd/sganiwr oedd ganddynt ar hyn o bryd a bod angen argraffydd newydd arnynt ar frys i allu parhau i gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol. Byddai argraffydd newydd Oce ColourWave 500MF gyda sganiwr yn rhan ohono yn gofyn am un taliad o £19,500. Fodd bynnag, roedd natur arbenigol yr argraffydd wedi golygu na ellid cael tri dyfynbris, ac er mwyn sicrhau gwerth gorau, byddai'r pryniant yn cael ei hwyluso drwy'r Fframwaith Caffael Cenedlaethol.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd prydlesu'r offer wedi'i ystyried, ac atebodd y swyddogion bod opsiwn prydlesu wedi'i ystyried ond yn yr achos hwn roedd yn fwy cost effeithiol i brynu.

PENDERFYNWYD cytuno i brynu sganiwr Oce Newydd.

11. Amrywio'r Rheolau Sefydlog ar gyfer Caffael Meddalwedd Rheoli Swyddi ESRI Arc Ar-lein

Dywedodd y Rheolwr Gweithrediadau nad oedd y systemau rheoli swyddi presennol sy'n cael eu defnyddio gan y Tîm Rheoli Cefn Gwlad bellach yn addas i'r pwrpas a bod symud i lwyfan digidol canolog yn ddymunol i sicrhau y gallai'r tîm weithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol.

Gwelwyd bod llwyfan meddalwedd rheoli swyddi, ESRI Arc Online, oedd yn system fasnachol oddi ar y silff, yn cwrdd â'r holl feini prawf angenrheidiol ac yn system sy'n arwain ar y farchnad. Nodwyd manteision y system yn yr adroddiad, ac roedd y system hefyd wedi'i chyflwyno gerbron y Pwyllgor Adolygu Gweithredol yr wythnos flaenorol.

Nodwyd eto bod Gweithdrefn Ariannol yr Awdurdod FP8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gael tri dyfynbris ar gyfer caffael nwyddau/gwasanaethau sy'n costu rhwng £10,000 a £25,000. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl cael dau ddyfynbris arall ar gyfer llwyfannau eraill gan nad oedd unrhyw lwyfan arall sydd ar gael yn fasnachol ar hyn o bryd oedd yn cyflawni'r diben craidd oedd ei angen.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod yr adroddiad mewn gwirionedd yn ceisio amrywiad i atal y Safonau Ariannol er mwyn gallu caffael y system.

Dywedodd un Aelod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol bod y cyflwyniad a dderbyniwyd ar y system ESRI Arc Online wedi bod yn gyflwyniad da ac yn darbwyllo ac nad oedd yn petruso dim cyn argymhell y dylid prynu'r system. Holodd Aelod arall a fyddai unrhyw gostau o ran dyfeisiau symudol fyddai'r staff eu hangen i allu defnyddio'r system, ac atebodd y Rheolwr y byddai'r system yn gweithio ar y dyfeisiau a ddarperir eisoes gan yr Awdurdod ac na fyddai angen unrhyw galedwedd neu weinyddwyr ychwanegol.



PENDERFYNWYD cymeradwyo amrywiad i atal Safonau Ariannol ar gyfer caffael system rheoli swyddi ar-lein fel y nodwyd yn yr adroddiad.

